

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad	9 Mawrth, 2023
Teitl	Glendid Stryd
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Berwyn Parry Jones
Awdur	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd)
Pwrpas	Sicrhau Cymunedau Glân a Thaclus

1. Cyflwyniad

- 1.1 Yr ydym yn cydnabod y pwysigrwydd o greu ymdeimlad o falchder bro drwy sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn lan ac yn daclus. Mae gan amgylchedd lleol o ansawdd gwael effeithiau pellgyrhaeddol a negyddol. Mae'n effeithio ar les, yn atal pobl rhag defnyddio mannau gwyrddion ac mae hyd yn oed yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o achosion o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan hefyd effeithio ag amharu ar yr economi a thwristiaeth.
- 1.2 Fel rhan o'r Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i sicrhau nad oes sbwriel ar briffyrdd a mannau cyhoeddus eraill. Er sicrhau lefelau glendid o safon uchel rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n helpu i sicrhau bod ein strydoedd a lleoliadau agored cyhoeddus yn lan.
- 1.3 Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r prif ddatblygiadau o'r peilot biniau clyfar, gweledigaeth glanhau strydoedd a'r cynnydd a wnaed yn dilyn sefydliad y Timau Tacluso 'Ardal Ni'.

2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

2.1. Glanhau Strydoedd

2.1.1 Mae glanhau strydoedd yn rhywbeth sy'n digwydd drwy'r flwyddyn ac mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- clirio mân ysbwriel
- cael gwared ag anifeiliaid marw
- glanhau olion baw cŵn
- clirio unrhyw beth sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon
- gwagio biniau sbwriel a baw cŵn
- clirio unrhyw beth arall sydd wedi'i ollwng
- glanhau mannau cyhoeddus - cylchol
- ysgubo ffyrdd a phalmentydd - cylchol.

- 2.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn glanhau pob safle cyhoeddus a ffordd fabwysiedig a reolir gan y Cyngor. Mae ardaloedd wedi eu rhannu yn barthau yn ôl eu defnydd. Parthau dwysedd defnydd Uchel yw canol trefi yn bennaf; parthau dwysedd defnydd Canolig yw'r ardaloedd preswyl yn bennaf tra bod parthau dwysedd defnydd Isel yn ardaloedd llai dwys sy'n cynnwys ffyrdd Sirol gwledig.
- 2.1.3 Yn y gorffennol, ymgorfforwyd yr elfennau ysgubo strydoedd a gwagio biniau gwastraff cyhoeddus yn y Gwasanaeth Casglu ac Ailgylchu Gwastraff gydag un rheolwr yn gyfrifol am yr holl weithgareddau ac uned fusnes mewnol yn darparu gwasanaethau cefnogol. Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ym mis Medi 2022 i drosglwyddo'r elfennau casglu, ailgylchu a thrin gwastraff i'r Adran Amgylchedd, roedd y Gwasanaeth Glanhau yn sefyll yn annibynnol.
- 2.1.4 Rhoddodd yr ad-drefnu hwn gyfle i'r Adran edrych ar sut mae'r holl Wasanaeth Glanhau Strydoedd yn gweithredu ar lawr gwlad. O ganlyniad, cynhaliwyd adolygiad lefel uchel o weithgareddau'r Gwasanaeth er mwyn darganfod beth oedd y rhwystrau i'w redeg yn effeithiol ac effeithlon â chynnig argymhellion ar gyfer gwelliannau wrth symud ymlaen.
- 2.1.5 Adroddwyd yn ôl ym mis Ionawr y llynedd bod ein cylchdeithiau cylchol o lanhau angen eu diweddarau er ymateb i'r pwysau ychwanegol yn sgil cynnydd yn nhwristiaeth ond hefyd drefniadau gwahanol o gasglu gwastraff.
- 2.1.6 Yn ogystal â chodi nifer o faterion eraill, cadarnhaodd yr adolygiad bod angen adolygu'r cylchdeithiau glanhau strydoedd a chasglu biniau presennol er mwyn canfod a ydynt yn addas i'r pwrpas neu a ellir gwneud arbedion ariannol ac effeithlonrwydd. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ail-edrych ar y cylchdeithiau hyn.
- 2.1.7 Mae ein tîm gwaith i'w canmol am ei ymroddiad ac y gwaith sydd yn cael ei gario allan ganddynt. Sut bynnag, yr ydym wedi adnabod gwendidau yn y drefn o gyfathrebu a bydd hyn yn cael sylw er sicrhau eu bod yn cael mewnbwn i unrhyw newidiadau.

2.2 Tîm Tacluso 'Ardal Ni'

- 2.2.1 Yr ydym a blaenoriaeth fel Adran o sicrhau Cymunedau Glan a Thaclus. Mae gennym 5 Tîm Tacluso yn weithredol ers mis Medi'r llynedd sy'n ymgymryd â gwaith sy'n cyfrannu at wella edrychiad ein strydoedd ac ein hamgylchedd.
- 2.2.2 Rydym yn falch o adrodd bod y timau wrthi'n harddu'r Sir ac yn gwneud gwahaniaeth gweladwy.
- 2.2.3 Er mwyn gwireddu'r hyn addawyd o fewn ein adroddiad Cabinet a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg TG cyflwynir ffurflen ddigidol yn FFOS er mwyn derbyn ceisiadau am waith gan aelodau lleol. Rydym wedi derbyn nifer o geisiadau ac mae'r Swyddog Prosiect/Arweinydd Tîm yn gyfrifol am ymateb iddynt a'u hanfon ymlaen i dabled symudol y Timau perthnasol. Mae'r tabledi symudol yn galluogi'r timau ddiweddarau'r ceisiadau gan atodi lluniau o'u gwaith tra allan yn gweithio o fewn ein cymunedau.
- 2.2.4 Gwelir datblygiad newydd o fewn y porth aelodau sy'n 'hwb' i'r Timau. Gosodir y ffurflen FFOS yno yn ogystal â chylchdeithiau'r timau ar fap rhyngweithiol. Bwriedir ychwanegu i'r hwb yma gan osod holiadur boddhad cwsmer a lluniau/manylion o waith y timau.

- 2.2.5 Bydd gwaith y timau yn mynd gam ymhellach na gwaith cynnal a chadw'r adran gan ganolbwyntio ar 'lanhau dwfn'. Er mwyn gwireddu hyn, pwrkasir peiriant golchi strydoedd a thynnu gwm cnoi arbenigol yn ogystal ag offer tynnu graffiti arbenigol.
- 2.2.6 Ar hyn o bryd, maent yn defnyddio cerbydau disel i gludo eu hoffer a deunyddiau. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar y gweill i amnewid y rhain gyda cherbydau trydan pwrpasol.
- 2.2.7 Ers eu sefydlu rydym wedi bod yn hyrwyddo gwaith y Timau ar gyfryngau cymdeithasol. Bwriedir ehangu ar y gwaith yma er mwyn arddangos gwerth y Timau a'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud o fewn ein cymunedau.

2.3 Gwasanaethau Stryd- Glendid Stryd/ Treial Biniau Clyfar

- 2.3.1 Mae sbwriel yn casglu o fewn gwahanol barthau dros amrywiol gyfnodau amser. Mae glendid ardal yn cael ei asesu trwy gymharu gyda safon a nodir isod.
- Gradd A - dim sbwriel na gwastraff
 - Gradd B - ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff ac eithrio rhai eitemau bach
 - Gradd B+ - dim mwy na tair eitem fach o sbwriel
 - Gradd C - dosbarthiad eang o sbwriel a/neu wastraff gyda chroniadau bach
 - Gradd D - llawer iawn o sbwriel a/neu wastraff gyda chroniadau sylweddol.
- 2.3.2 Derbyniwyd canlyniadau arolwg annibynnol 'Cadw Cymru yn Daclus' sy'n dangos canran o strydoedd y Sir sy'n lan mewn cymhariaeth â'r ffigwr cenedlaethol. Fel rhan o arolwg 2022/23 arolygwyd 141 o drawsluniau unigol. Dyfarnwyd gradd B neu uwch i 95% o'r strydoedd hyn, sef strydoedd sy'n cael eu hystyried bod ganddynt lefel derbyniol o lanweithdra gan y cyhoedd.
- 2.3.3 Er mwyn sicrhau lefelau glendid o ansawdd buddsoddwyd mewn synwryddion a biniau clyfar er mwyn arbrofi gyda thechnoleg fodern. Fel rhan o'r treial hwn, gosodwyd 5 synhwrydd 'Brighter Bins' sydd yn monitro capasiti ein biniau. Mae'r synwryddion yma yn ddefnyddiol iawn gan greu cais am waith awtomatig i'r uned waith pan fydd y biniau angen eu gwagio. Lleolir y synwryddion yma yng Nghaernarfon, Llanberis a Bangor. Yn ogystal â hyn, pwrkasir 5 bin clyfar drwy grant 'Caru Cymru' llynedd. Mae'r biniau yma yn gweithio ar ynni solar ac yn cywasgu'r cynnwys rhwng 7 a 10 waith cyn gyrru neges sensor i'w hysbysu bod y bin yn llawn.
- 2.3.4 Buasai nifer o finiau o'r fath yn lleihau'r angen i wagio biniau mor aml. Felly, gobeithiwn ychwanegu at y niferoedd o finiau clyfar i'r dyfodol gan edrych ar amnewid holl finiau mewn un tref/pentref er mwyn mesur eu heffeithlonrwydd.
- 2.3.5 Bydd pwyslais hefyd ar gyflwyno biniau ailgylchu ar y stryd er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cyfleon i drigolion ac ymwelwyr Gwynedd ailgylchu tra allan yn ein cymunedau.

3. Camau Nesaf

- 3.1 Nid oes unrhyw un yn hoffi gweld sbwriel ar hyd y strydoedd, blerwch neud unrhyw beth sy'n effeithio ar ddelwedd y Sir. Yn anffodus, mae rhai yn dal i niweidio ein hamgylchedd drwy beidio gwaredu eu gwastraff yn gyfrifol sydd yn ddolur llygaid ac yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd.
- 3.2 Byddwn yn sicrhau trefn i newid ymddygiad er mwyn cyflawni buddion amgylcheddol yn y tymor hir.
- 3.3 Mae addysgu ein plant yn hanfodol a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau ysbwriel, a byddwn yn datblygu rhaglen er ymweld ac ysgolion.
- 3.4 Mae gwirfoddolwyr yn bwysig iawn ac eisoes gweler ymgyrchoedd ar draws y Sir er codi mân ysbwriel a threfnu digwyddiadau o glirio eitemau wedi eu gwaredu yn anghyfreithlon.
- 3.6 Ein gweledigaeth felly yw dod a hyn ynghyd gan:

<u>Gweithred</u>	<u>Amserlen</u>
Adolygu yn gyntaf ein trefniadau gwaith glanhau cylchol gan sicrhau eu bod yn ymateb ar gofyn gan ail-edrych ar ein hadnoddau er cyflawni'r gwaith hwn.	Cyn diwedd yr haf 2023.
Cydlynu gwaith gan wirfoddolwyr pan yn cario allan gwaith codi mân ysbwriel.	Cyn diwedd mis Medi 2023.
Gweithio ar draws sectorau er cynnal ymgyrchoedd.	Prosiect hir-dymor sydd bellach yn weithredol.
Mynd i'r afael a sbwriel ar ymylon ffyrdd gwledig.	Cychwyn ar y gwaith hwn gwanwyn yma.
Cyflwyno biniau ailgylchu ar y stryd er uchafu ar ailgylchu'r deunyddiau.	Tymor canolig.
Manteisio ar ddatblygiadau technoleg gwybodaeth e.e. biniau clyfar.	Tymor canolig.
Addasu fel bydd cod ymarfer o'r newydd yn cael ei gyhoeddi.	Tymor canolig/tymor hir.